

## **Bwletin Awdurdod S4C** **- Awst 2002**

Mae'r isod yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2002.

### **Diolchiadau**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd dros y misoedd diwethaf tra bu'n gwella ar ôl llawdriniaeth. Nododd y bu'r cyfarfodydd agored yn Wrecsam a'r Barri yn llwyddiannus o dan arweiniad crefftus Nic Parry a Cefin Campbell. Gwerthfawrogodd y ffaith y bu Huw Wynne-Griffith yn cadw llygad craff ar ddatblygiadau ariannol a masnachol fel cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, a diolchodd yn arbennig i Janet Lewis-Jones am gadeirio'r ddau gyfarfod diwethaf o'r Awdurdod a'r gefnogaeth ychwanegol a roddodd yn ystod y cyfnod, gan gynnwys ymddangos o flaen y Cydbwyllgor Archwilio ar y Mesur Cyfathrebu.

### **Cydymdeimlad**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth drasig Gethin Rhys Williams, actor ifanc yn y rhaglen *Rownd a Rownd*, yn ddiweddar. Mynegodd yr Aelodau eu tristwch mawr a'u cydymdeimlad gyda'r teulu a'i ffrindiau. Roedd y Prif Weithredwr eisoes wedi ysgrifennu at y teulu ar ran S4C.

### **Apel Elusen S4C**

Ystyriwyd fod yr wythnos arbennig i godi arian tuag at elusen Shelter wedi bod yn un llwyddiannus a thrawiadol gyda chyfres o wahanol digwyddiadau. Am y tro cyntaf, bu yna nifer o raglenni yn gysylltiedig a'r ymgyrch, lle yn y gorffennol dim ond *Heno* oedd ynghlwm iddi. Teimlwyd bod yna lawer mwy o ymwybyddiaeth a diddordeb cyffredinol wedi bod i'r apêl eleni ac yr oedd y sylwadau gan Shelter ei hun wedi bod yn ffafriol iawn, wrth iddynt deimlo eu bod wedi cael tipyn o sylw. Wrth nodi hyn, mynegodd yr Aelodau y farn bod y ddwy raglen *Ar y Stryd* wedi bod yn rhai cryf ac arbennig iawn. Hefyd, diolchwyd i Bennaeth yr Adran Farchnata a staff yr adran am eu holl waith yn ystod yr wythnos ymgyrchu. Nid oedd yna wybodaeth ar gael eto ynglyn â faint o arian oedd wedi'i godi.

### **Cylch Gwariant Cyhoeddus**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr a dderbyniodd oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol y DCMS a wnaeth gyfeirio at y ffaith fod yr Adran wedi llwyddo i gael cynnydd o 7% yn ystod y cylch gwariant cyhoeddus newydd ei ddatgan gan Ganghellor y Trysorlys. Ni roddodd y llythyr unrhyw arwydd o bwy fyddai'n elwa o'r cynnydd hyn ond y gobaith oedd y byddai S4C yn clywed canlyniad ei chais am arian ychwanegol erbyn mis Hydref.

### **Adroddiad Blynyddol y BSC**

Roedd pob Aelod o'r Awdurdod wedi derbyn copi o'r adroddiad hwn a thynnwyd sylw at y ffaith bod yna gynnydd yn y nifer o faterion yn ymwneud â S4C wedi dod at sylw'r BSC. Roedd hyn yn rhywbeth y dylid cadw llygad arno a hefyd wrth gwrs yn rhywbeth fyddai'n berthnasol o safbwynt y corff OFCOM newydd. Nodwyd hefyd y datganiad yr wythnos honno mai yr Arglwydd David Currie fyddai cadeirydd OFCOM.

## **Adolygu Strategaeth**

Arweiniodd y Prif Weithredwr yr Aelodau drwy bapur manwl a gyflwynodd nifer o ystyriaethau strategol. Papur cychwynol oedd hwn ac nid oedd gofyn i'r Awdurdod benderfynu ar unrhyw beth penodol yn y cyfarfod yma. Roedd yna dipyn o waith pellach i swyddogion ymgymryd ag ef ac fe fyddai yna bapur pellach yn cael ei gyflwyno adeg yr hydref gyda chasgliadau mwy pendant. Er hynny, roedd y papur yn rhoi cyfle i'r Aelodau gynnig sylwadau ar gyfeiriad cyffredinol y gwaith ar y gweill. Cafwyd trafodaeth hir ac eang a chytunwyd ar un neu ddau o feysydd lle y byddai'r Awdurdod yn dymuno cael mwy o wybodaeth yn yr hydref.

## **Cyhoeddiad Adroddiad Blynyddol**

Nodwyd bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2001 wedi'i gyhoeddi ar 2 Gorffennaf 2002. Y bwriad oedd cyflwyno adroddiad ar faterion a gododd yn dilyn y cyhoeddiad yn cyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod nesaf.

## **Canllawiau Iaith Adolygedig**

Ystyriodd yr Aelodau ddrafft o ganllawiau adolygedig i gynhyrchwyr mewn perthynas â iaith Heblaw am ambell mân newidiad, cytunwyd y dylid gwahodd sylwadau ar y canllawiau oddi wrth gyrrff allanol cyn i'r Awdurdod roi sêl bendith terfynol arnynt.

## **Ymateb S4C i'r Mesur Cyfathrebu**

Ystyriodd yr Awdurdod bapur a wnaeth grynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r cymalau yn y Mesur Cyfathrebu oedd yn ymwneud â S4C a'i hymateb iddynt a thrafodwyd nifer o faterion yn codi o hyn, yn enwedig yn ymwneud â phwerau masnachol S4C. Nodwyd y byddai trafodaethau gyda'r DCMS ar y Mesur yn parhau dros yr haf.

## **Cynllun Corfforaethol 2002-04 – Adolygiad Hanner Blwyddyn**

Nododd yr Aelodau y perfformiad hyd yn hyn yn erbyn y targedau a osodwyd yn y cynllun. Nodwyd yn arbennig nad oedd system BARB wedi cynhyrchu ffigurau dibynadwy dros y cyfnod hwn.

## **Cydymffurfiaeth: *Nwci***

Tynnwyd sylw'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mehefin at rai agweddau o'r gyfres *Nwci* ac yn benodol at dair golygfa o'r rhaglen. Gohiriodd yr Aelodau gymryd penderfyniad ar y mater hwn gan iddynt deimlo bod angen iddynt wyllo'r gyfres yn ei chrynswth er mwyn medru ystyried ac ymateb i'r pwyntiau a godwyd, sef: a oedd yr esiamplau penodol yn torri'r

canllawiau; ac a ddylai ddarllledwr cyhoeddus gomisiynu rhaglen o'r fath o ystyried peryglon o ddiraddio neu eexploitio. Wedi gwyllo'r gyfres yn ei chyfanrwydd, cynhaliodd yr Aelodau drafodaeth bellach ar yr elfennau hyn.

**Cytunwyd:**

- (a) Er na fyddai'r Awdurdod am weld ormod o gyfresi fel *Nwci* yn cael eu darllledu ar S4C, nid oedd yna wrthwynebiad i'r Sianel gomisiynu cyfresi o'r fath ac, er bod un neu ddau o enghreifftiau penodol yn peri gofid i'r Aelodau, ni chredwyd eu bod yn diraddio. Yn wir, roedd yn dda bod materion fel hyn yn cael eu trafod yn y Gymraeg.
- (b) Tra na fyddai'r gyfres yn gyffredinol wedi mynd tu hwnt i ddisgwyliadau'r gynulleidfa, roedd y tri chlip a dynnwyd at sylw'r Awdurdod gan y Grwp Cydymffurfiaeth – yn enwedig yr eitem ar gylchgronau pornograffig – yn dod yn agos iawn at dorri'r canllawiau. Roedd pryderon hefyd ynglyn ag eitemau eraill yn ystod y gyfres, sef, golygfa dawnsio polyn a hefyd o fachgen yn dwstio.
- (c) Dylai sylwadau'r Awdurdod gael eu cyfleu at y cynhyrchwyr.

**Nawdd**

Ystyriodd yr Awdurdod bapur a wnaeth osod allan manylion pedwar cais am nawdd a thrafodwyd yr hyn a argymhellwyd.

**Cytunwyd:**

- (a) Ffresh [*Datganodd y Cadeirydd ddiddordeb yn y mater hwn a ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r penderfyniad.*] – Y dylid rhoi nawdd o £500 tuag at y digwyddiad yma.
- (b) Westminster Media Forum – Y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r cais hwn.
- (c) Tredegar Development Trust – Ni ddylid rhoi nawdd a staff i roi cefnogaeth bersonol yn unig.
- (ch) Theatr Gwynedd [*Datganodd yr Aelod, Nic Parry, ddiddordeb yn y mater hwn a ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r penderfyniad.*] – Y dylid rhoi nawdd o £1,000 i noddi'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Ein Hiaith: Ei Dyfodol – Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg Pwyllgorau Diwylliant ac Addysg y Cynulliad**

Ystyriwyd papuryn crynhoi prif gasgliadau yr adolygiad polisi iaith a gyhoeddwyd gan Bwyllgorau Diwylliant ac Addysg y Cynulliad ar 9 Gorffennaf ac at oblygiadau'r adolygiad ar gyfer S4C. Yn ogystal, cylchredwyd copi o'r adroddiad llawn. Teimlwyd y byddai'n bwysig i S4C, fel corff ar wahân i'r Cynulliad, i barhau i bwysleisio y rôl dra phwysig oedd ganddi i gydweithio fel partner i ddenu plant a phobl ifanc a dysgwyr at yr iaith.

**Cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Animeiddio**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Animeiddio gyflwyniad byr a wnaeth adrodd ar ddatblygiadau ar y gwaith animeiddio ers y cyflwyniad mwy cynhwysfawr a roddodd i'r Awdurdod nôl ym mis Mawrth. Yn bennaf cyfeiriodd at yr isod.

- *Cartoon Forum* – Soniodd y byddai hyn yn cael ei gynnal yn y Faenol, Caernarfon. Hwn oedd y digwyddiad cyfryngol mwyaf o'i fath yn yr Undeb Ewropeaidd, roedd yn ddigwyddiad £1 miliwn fyddai'n cymryd lle dros 4 diwrnod. Fforwm cyd-gynhyrchu ydoedd, gyda 87 o gynigion, 7 ohonynt wedi'i noddi gan S4C. Fe fyddai Gweinidog Diwylliant y Cynulliad, Jenny Randerson, yn cyflwyno'r 'Cartoon d'Or' ar y nos Sadwrn.
- Chwedlau'r Byd Wedi'u Hanimeiddio – Cyfeiriwyd at y cynhyrchiad 26 gwlad hon a soniwyd bod hi nawr yn fwriad i gynhyrchu 13 chwedl bellach.
- Mabinogi – Roedd hwn yn ffilm 100 munud, oedd yn dechrau ac yn diweddgu gyda 'live action' gyda gweddiill y ffilm mewn arddull animeiddiedig 2D. Byddai'r ffilm yn cael ei 'premiere' yn yr hydref. Cyfeiriwyd at y ffaith bod yna raglen 'Gwneud y Mabinogi' yn cael ei chynhyrchu, a hefyd bod yna 'nofel graffeg' yn cael ei chyhoeddi.
- Dramâu Shakespeare ar gyfer Ysgolion – Esboniwyd bod cynlluniau wedi datblygu ymhellach ar gyfer lledaenu'r prosiect hyn. Fe fyddai 100 o ysgolion mewn 11 lleoliad yng Nghymru yn cymryd rhan eleni, gyda Noson Gala yn cymryd lle yn y Theatr Newydd, Caerdydd, ym mis Tachwedd lle byddai'r pedair drama orau yn cael eu llwyfannu. Yna roedd cynlluniau ar gyfer y ddwy flynedd nesaf ble byddai'r prosiect yn cymryd lle ym mhob rhanbarth o Brydain. Y gobaith oedd y byddai'r DCMS yn cynnig nawdd tuag at y cynllun ac roedd y Royal Shakespeare Company hefyd wedi ymrwymo i gynnal gweithdai.

## **Materion Eraill**

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2002.
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr.
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol.